

2015 Rhif 276 (Cy. 18)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Ffin
Conwy/Gwynedd i Gapel Curig,
Bwrdeistref Sirol Conwy)
(Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro
a Dim Goddiweddyd) 2015

Gwnaed 5 Ionawr 2015

Yn dod i rym 12 Ionawr 2015

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o’r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Ionawr 2015 a’i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Ffin Conwy/Gwynedd i Gapel Curig, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2015.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 08:00 o’r gloch ar 12 Ionawr 2015 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn o’r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw’r darn o’r gefnffordd ym Mwrdeistref Sirol Conwy sy’n ymestyn o ffin Conwy/Gwynedd wrth bwynt sy’n 300 metr i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth sy’n arwain at Hostel Ieuenctid Idwal hyd at bwynt sy’n 1,050 metr i’r de-ddwyrain o’i chyffordd â’r A4086 yng Nghapel Curig.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiadau a Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

Cymhwysio

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

5 Ionawr 2015

R Morgan

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27. Amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.